Tâl Salwch Statudol

Help pan fyddwch i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Chwefror 2010.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Beth yw Tâl Salwch Statudol? 4

A allaf gael Tâl Salwch Statudol? 4

A allaf gael Tâl Salwch Statudol dramor? 5

Beth y dylwn ei wneud pan fyddaf yn sâl? 5

Sut y gallaf brofi fy mod yn sâl? 6

Beth os byddaf yn sâl am amser hir? . . . 6

Beth os gallaf gael mathau eraill o dâl salwch? 7

Sut ydw i'n cael Tâl Salwch Statudol? . . . 7

Faint o dâl salwch y gallaf ei gael? 7

Beth y dylwn ei wneud os na fydd fy nghyflogwr yn talu Tâl Salwch Statudol i mi? 8

Rhagor o wybodaeth 9

Beth yw Tâl Salwch Statudol?

Os na allwch weithio oherwydd eich bod yn sâl, efallai bod trefniadau tâl salwch gan y sawl rydych yn gweithio iddynt sy'n gymwys i chi. Mae pa dâl salwch a gewch yn dibynnu ar y sawl rydych yn gweithio iddynt.

Ond gall pawb sy'n bodloni amodau penodol gael math sylfaenol o dâl salwch - fe'i gelwir yn Dâl Salwch Statudol.

Efallai y bydd y sawl rydych yn gweithio iddynt yn talu Tâl Salwch Statudol os na allwch weithio am 4 diwrnod neu fwy yn olynol. Byddwch yn cael Tâl Salwch Statudol am y diwrnodau y byddech fel arfer yn eu gweithio - mae'n rhaid iddo fod yn un diwrnod mewn wythnos o leiaf.

A allaf gael Tâl Salwch Statudol?

Er mwyn cael Tâl Salwch Statudol mae'n rhaid eich bod:

- yn gyflogedig, ac
- yn ennill mwy na swm penodol.

Hyd yn oed os mai eich diwrnod cyntaf yn eich swydd newydd ydyw, cyhyd â'ch bod wedi treulio rhywfaint o amser yn gweithio gallech gael Tâl Salwch Statudol o hyd. Ni allwch gael Tâl Salwch Statudol os ydych wedi bod yn cael rhai budd-daliadau eraill fel Lwfans Mamolaeth, Budd-dal Anallu ogrwydd neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Os nad ydych yn siŵr a allwch gael Tâl Salwch Statudol, dylech ofyn i'r sawl rydych yn gweithio iddynt.

A allaf gael Tâl Salwch Statudol dramor?

Mae'n bosibl y gallwch gael Tâl Salwch Statudol dramor os yw'ch cyflogwr yn gyfrifol am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, neu y byddai yn gwneud pe byddai'ch enillion yn ddigon uchel, ar y diwrnod cyntaf y byddwch yn sâl. Efallai fod gennych gyflogwr o'r fath hyd yn oed os ydych yn gweithio dramor. Mae rheolau arbennig yn gymwys os ydych yn gweithio ar y môr neu ar awyrennau neu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (gweler tudalen 11).

Beth y dylwn ei wneud pan fyddaf yn sâl?

Pan fyddwch yn mynd yn sâl dylech ddweud wrth eich cyflogwr cyn gynted â phosibl. Efallai fod gan y sawl rydych yn gweithio iddynt reolau eu hunain o ran sut a phryd y dylech ddweud wrthynt, ond ni allant ofyn i chi wneud y canlynol:

- dweud wrthynt yn bersonol
- dweud wrthynt cyn y diwrnod cyntaf y byddwch yn sâl neu erbyn amser penodol
- dweud wrthynt ar ffurflen neu dystysgrif feddygol, neu
- ddweud wrthynt fwy nag unwaith yr wythnos.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthynt cyn i chi fod yn absennol oherwydd salwch am 7 diwrnod, neu gallai'r sawl rydych yn gweithio iddynt wrthod talu Tâl Salwch Statudol i chi.

Sut y gallaf brofi fy mod yn sâl?

Hyd at 7 diwrnod

Efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau ffurflen i'r sawl rydych yn gweithio iddynt. Os bydd angen y ffurflen arnoch, gallwch gael ffurflen SC2 yn eich meddygfa neu eich swyddfa dreth agosaf. Os gallwch ddefnyddio'r rhyngrwyd, gallwch gael y ffurflen yn www.hmrc.gov.uk/forms

Mwy na 7 diwrnod

Bydd y sawl rydych yn gweithio iddynt yn dweud beth sydd angen i chi ei ddangos iddynt i brofi eich bod yn sâl. Nodyn salwch gan eich meddyg fydd hyn fel arfer. Nid oes rhaid i chi ddangos nodyn salwch iddynt cyn 7 diwrnod.

Beth os byddaf yn sâl am amser hir?

Gallwch gael Tâl Salwch Statudol am hyd at 28 wythnos. Os byddwch yn rhy sâl i weithio ar ôl yr amser hwn, dylech gael ffurflen (SSP1W) gan eich cyflogwr.

Os byddwch i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch eto lai nag 8 wythnos ar ôl y tro diwethaf yr oeddech i ffwrdd yn sâl, gall gyfrif fel un cyfnod o salwch.

Os byddwch i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch ar ôl i chi fod yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd, mae rheolau arbennig a dylech gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Beth os gallaf gael mathau eraill o dâl salwch?

Os byddwch yn gweithio i fwy nag un cyflogwr, ac yn ennill mwy na £95 gan bob un ohonynt, mae'n bosibl y gallech gael mwy nag un gyfres o Dâl Salwch Statudol.

Os bydd y sawl rydych yn gweithio iddynt yn talu tâl salwch i chi a'i fod yn fwy na Thâl Salwch Statudol, nid oes rhaid iddynt dalu Tâl Salwch Statudol i chi hefyd.

Sut ydw i'n cael Tâl Salwch Statudol?

Caiff eich Tâl Salwch Statudol ei dalu yn yr un ffordd â'ch cyflog arferol.

Faint o dâl salwch y gallaf ei gael?

Er mwyn gweithio eich Tâl Salwch Statudol allan, bydd eich cyflogwr yn gweithio allan faint rydych yn ei ennill ar gyfartaledd. Os byddwch yn ennill £95 neu fwy yr wythnos, telir Tâl Salwch Statudol ar gyfradd safonol o £79.15 yr wythnos.

Os nad yw hyn yn rhoi digon o arian i chi, gofynnwch i'r Ganolfan Byd Gwaith am fudd-daliadau eraill y gallech eu cael.

Beth y dylwn ei wneud os na fydd fy nghyflogwr yn talu Tâl Salwch Statudol i mi?

Os na all eich cyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol i chi, mae'n rhaid iddynt roi ffurflen (SSP1W) i chi a fydd yn nodi'r rheswm pam na allant wneud unrhyw daliadau i chi. Pan fydd gennych y ffurflen hon cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i ofyn am wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch gysylltu â'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM leol drwy:

- fynd i wefan Cyllid a Thollau EM yn www.hmrc.gov.uk/enq neu
- ffonio'r rhif yn y llyfr ffôn (mae'n bosibl mai'r hen enw, Cyllid y Wlad/Inland Revenue fydd yn y fersiynau hŷn).

Ffôn 0845 302 1479

Ffôn testun 0845 915 3269

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 5pm.

Gallech gael help gan y Ganolfan Byd Gwaith hefyd drwy:

- fynd ar-lein yn www.direct.gov.uk/cy neu
- gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith (mae cyfeiriad a rhif ffôn eich swyddfa leol yn eich llyfr ffôn).

Rhagor o wybodaeth am gyfraddau budd-daliadau

Caiff cyfraddau budd-daliadau eu hadolygu bob blwyddyn, ac fe'i cynyddir fel arfer ym mis Ebrill ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

Costau galwadau

O fis Chwefror 2010 ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 9c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn testun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd llefaru neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfannau cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

Y gwledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yw: yr Almaen, Awstria, Bwlgaria, Cyprus, Denmarc, y Deyrnas Unedig (gan gynnwys Gibraltar ond nid Ynys Manaw nag Ynysoedd y Sianel), yr Eidal, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, Groeg, Gwlad Belg, Gwlad Pwyl, Gwlad yr Iâ, Hwngari, yr Iseldiroedd, Iwerddon, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Norwy, Portiwgal, Romania, Sbaen (gan gynnwys yr Ynysoedd Baleares a Dedwydd), Slofacia, Slofenia, Sweden a'r Weriniaeth Siec. Mae trefniadau arbennig am reolau nawdd cymdeithasol yn gymwys i'r Swistir hefyd.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bob math o bynciau. I gael gwybod mwy am ba fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael, ewch i
www.direct.gov.uk/cynghoryddbudd-daliadau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-021-6
DWP1020W | f4.1 (Chwefror 2010) | v4.1 (February 2010)